

Cymorth cynnar, gofal a chefnogaeth a
threfniadau trosglwyddo ar gyfer plant
anabl
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cyflwyniad

Diben yr arolygiad hwn yw ystyried pa mor dda y mae awdurdodau lleol, gan gynnwys gwasanaethau integredig, yn darparu help, gofal a chymorth cynnar ac yn sicrhau bod cyfnodau pontio plant anabl a'u teuluoedd yn mynd rhagddynt yn ddidrafferth. Mae'r arolygiad yn nodi arferion sy'n ysgogi canlyniadau da i blant yn ogystal â meysydd i'w gwella a rhwystrau i gynydd.

Gwnaethom ganolbwyntio ar brofiadau plant anabl a'u teuluoedd wrth iddynt ddod i gysylltiad â gwasanaethau cymdeithasol a derbyn cyngor, cael eu cyfeirio at wasanaethau cymunedol, cymryd rhan mewn asesiadau, a derbyn gofal a chymorth. Gwnaethom hefyd ystyried plant anabl sydd â phrofiad o ofal, a'r ffordd y cafodd pobl ifanc eu helpu i bontio i wasanaethau oedolion.

Bwriad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (SSWBA) oedd dod â gwasanaethau cymdeithasol at ei gilydd a'u moderneiddio. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd a Gweinidogion Cymru i gydweithio i hyrwyddo llesiant y rhai y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt. Mae egwyddorion y Ddeddf fel a ganlyn:

- Dylid cefnogi pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, er mwyn sicrhau eu llesiant.
- Pobl sydd wrth wraidd y system, a dylent gael cyfle cyfartal i leisio barn am y cymorth y maent yn ei gael.
- Partneriaethau a chydweithredu sy'n ysgogi'r broses o ddarparu gwasanaethau.
- Dylai gwasanaethau hybu'r broses o atal anghenion rhag gwaethygu, a dylent sicrhau bod yr help cywir ar gael ar yr adeg gywir.

Mae 'Cymru Iachach' yn esbonio'r uchelgais o ddod â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ynghyd, er mwyn i wasanaethau gael eu cynllunio a'u darparu yn unol ag anghenion a dewisiadau unigolion, gan roi mwy o bwyslais ar gadw pobl yn iach a hyrwyddo llesiant. Mae 'Cymru Iachach' yn disgrifio sut y dylid cydlynu dull system gyfan ddi-dor o ymdrin ag iechyd a gofal cymdeithasol.

Arweiniwyd yr arolygiad hwn gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), gyda chymorth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC).

Cryfderau a blaenoriaethau ar gyfer gwella

Mae AGC yn tynnu sylw'r awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd lleol at gryfderau a meysydd i'w gwella. Rydym yn disgwyl i gryfderau gael eu cydnabod a'u dathlu a'u defnyddio fel cyfleoedd i adeiladu arnynt. Rydym yn disgwyl i flaenoriaethau ar gyfer gwella arwain at gamau gweithredu penodol er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i bobl yn ardal yr awdurdod lleol, yn unol â gofynion deddfwriaeth a chodau ymarfer.

Llesiant	
Cryfderau	<p>Mae'r rheolwyr a'r ymarferwyr yn hyrwyddo agwedd gadarnhaol tuag at blant anabl. Maent yn ymrwymedig i sicrhau canlyniadau da a sicrhau y caiff plant eu hystyried yn gyson yn blant yn anad dim.</p> <p>Mae'r aelodau etholedig yn wybodus ac yn cael eu briffio'n dda. Maent yn cefnogi gwaith y swyddogion a chyfeiriad y gwasanaethau i blant anabl.</p> <p>Mae plant anabl yn cael ymateb amserol i geisiadau am gyfarpar ac addasiadau.</p>
Blaenoriaethau ar gyfer gwella	<p>Rhaid i'r rheolwyr a'r ymarferwyr sicrhau bod sgysiau am 'yr hyn sy'n bwysig' yn cael eu hymgorffori'n llawn mewn ymarfer, a bod y canlyniadau personol penodol y mae pobl am eu cyflawni bob amser yn cael eu nodi a'u cofnodi. Dylid gwella ansawdd yr asesiadau a'r cynlluniau gofal a chymorth er mwyn sicrhau eu bod o ansawdd dda yn gyson.</p> <p>Dylid sicrhau y cymerir camau'n gyson mewn perthynas â phryderon diogelu ynghylch llesiant plentyn anabl. Mae angen i'r awdurdod lleol fodloni ei hun y caiff gweithdrefnau diogelu plant eu defnyddio'n briodol fel ffordd o gefnogi teuluoedd i gadw plant anabl yn ddiogel.</p> <p>Mae angen i'r ymarferwyr sicrhau bod tystiolaeth, gwaith dadansoddi a phenderfyniadau'n cael eu cofnodi'n glir mewn nodiadau achos.</p> <p>Mae angen i'r rheolwyr sicrhau na chaiff cyfleoedd i gefnogi gofalwyr eu colli na'u hoedi, a bod y canlyniadau personol roedd y gofalwyr am eu cyflawni yn cael eu nodi a'u cofnodi.</p>
Pobl – llais a dewis	
Cryfderau	<p>Mae'r ymarferwyr yn meithrin cydberthnasau sy'n ystyrlon a llawn ymddiriedaeth â phlant anabl a'u teuluoedd. Maent yn manteisio ar amrywiaeth o ddulliau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cyfathrebu â phlant anabl.</p>

	<p>Mae'r ymarferwyr yn gadarnhaol am eu profiad o weithio i'r awdurdod lleol. Roedd morâl yn dda yn gyffredinol, a dywedodd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.</p>
<p>Blaenoriaethau ar gyfer gwella</p>	<p>Yn sgil datblygu System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru, bydd angen i reolwyr ac ymarferwyr sicrhau y caiff llais a barn plant anabl a'u rhieni, yn ogystal â'r canlyniadau personol y maent am eu cyflawni, eu cofnodi'n gyson yn yr asesiad a'r cynlluniau gofal a chymorth.</p> <p>Mae angen i'r awdurdod lleol ddatblygu fformat archwilio achosion sy'n cefnogi gwaith goruchwylio'r rheolwyr, yn galluogi canolbwyntio ar ansawdd ymarfer ac yn llywio dysgu'n uniongyrchol.</p> <p>Mae angen i'r awdurdod lleol wella ei brosesau o ran cofnodi arferion goruchwylio, a bodloni ei hun y caiff y polisi goruchwylio ei weithredu yn gyson, yn ogystal â gwneud trefniadau i archwilio ansawdd y gwaith goruchwylio.</p> <p>Mae angen i'r uwch-reolwyr sicrhau y caiff y gofrestr o bobl anabl ei hailsefydlu, fel y nodwyd yn eu hunanwerthusiad.</p>
<p>Partneriaethau ac integreiddio</p>	
<p>Cryfderau</p>	<p>Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n dda, ac mae'r ffaith bod staff o ddisgyblaethau gwahanol yn gweithio yn yr un lleoliad yn cefnogi'r gwaith o gyfeirio plant anabl a'u teuluoedd at wasanaethau priodol yn haws.</p> <p>Mae'r uwch-reolwyr yn mynd ati i weithio'n rhanbarthol, ac maent yn ymrwymedig i hyn.</p>
<p>Blaenoriaethau ar gyfer gwella</p>	<p>Mae angen i'r awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd lleol gydweithio i ddatblygu eu prosesau comisiynu, er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol i ddiwallu anghenion plant anabl sydd ag anghenion cymhleth.</p> <p>Mae angen i'r rheolwyr sicrhau bod trefniadau ar waith i fonitro amseroedd aros am wasanaethau, ac effaith aros ar blant anabl a'u teuluoedd.</p>
<p>Atal ac ymyrraeth gynnar</p>	
<p>Cryfderau</p>	<p>Mae'r uwch-reolwyr yn gwybod bod cael gwasanaethau ymyrraeth gynnar yn allweddol o ran lliniaru'r angen am wasanaethau statudol. Maent yn canolbwyntio ar ddatblygu a hyrwyddo cryfderau pobl a'u gwydnwch eu hunain, yn unol ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant [Cymru] 2014.</p>

	<p>Gwelsom eu bod yn canolbwyntio ar ddarparu help cynnar, hybu annibyniaeth a chymau i ddatblygu sgiliau byw er mwyn galluogi pob plentyn/person ifanc i wireddu ei lawn botensial.</p> <p>Mae ffocws clir ar wella cynhwysiant yn y gymuned ehangach i sicrhau y gall plant anabl a'u teuluoedd fanteisio ar yr adnoddau sydd ar gael yn y gymuned.</p>
Blaenoriaethau ar gyfer gwella	

1. Llesiant

Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau:

- **Bod plant anabl a theuluoedd yn cael y gofal a'r cymorth cywir, ar yr adeg gywir**
- **Bod plant yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn a'u diogelu rhag camdriniaeth, esgeulustod a niwed**

Tystiolaeth ar lefel yr unigolyn:

- 1.1. Caiff anghenion plant a phobl ifanc eu hasesu yn mewn ffordd amserol.
- 1.2. Dywedodd y rhan fwyaf o'r rhieni y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod yr ymarferwyr yn ceisio meithrin cydberthnasau gwaith cadarnhaol â nhw. Fodd bynnag, dywedodd rhai ohonynt wrthym nad oeddent yn sicr ynghylch ffocws cyfraniad y gwasanaethau cymdeithasol. Mae angen i'r awdurdod lleol sicrhau bod yr ymarferwyr yn parhau i geisio dod o hyd i ffyrdd o ymgysylltu â theuluoedd wrth gydweithio i lunio asesiadau a chynlluniau gofal a chymorth.
- 1.3. Ni all y rhieni na'r gofawyr fod yn hyderus y caiff cyfleoedd i ddarparu cymorth iddynt eu cydnabod bob amser. Mae hyn yn golygu efallai na fydd rhai gofawyr yn cael y cymorth y mae ei angen arnynt er mwyn cynnal eu llesiant.
- 1.4. Mae plant anabl yn cael ymateb amserol i geisiadau am gyfarpar ac addasiadau.

Tystiolaeth ar lefel weithredol

- 1.5. Mae gwybodaeth, cyngor a help ar gyfer plant anabl ar gael drwy nifer o bwyntiau mynediad. Y bwriad yw y gall teuluoedd gael gafael ar wybodaeth mewn ffordd amserol, a chael eu cyfeirio'n briodol at wasanaethau perthnasol. Roedd yna ragdybiaeth glir y dylai plant anabl yr oedd ganddynt anghenion cymwys am ofal a chymorth, allu hefyd fanteisio'n briodol ar ymyrraeth gynnar gyffredinol yn ogystal â gwasanaethau wedi'u targedu.
- 1.6. Dywedodd y rhieni a ymatebodd i'n harolwg, a oedd wedi cysylltu â'r gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth yn ystod y 12 mis diwethaf, fod y gwasanaeth yn ddefnyddiol, yn eu barn nhw. Yn ystod cyfweiliadau, roedd yr ymatebion yn fwy amrywiol o ran pa mor ddefnyddiol roedd lefel y cymorth a'r gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu, ym marn y bobl.
- 1.7. Mae gan y gwasanaeth anabled i bobl o dan 25 oed gyfrifoldeb dros blant anabl, gan gynnwys plant sydd â phrofiad o ofal a'r rheini y mae pryderon o niwed posibl yn eu cylch. Roedd y cydberthnasau gwaith agos

rhwng y Gwasanaeth Anabledd i bobl o dan 25 oed a'r Tîm Asesu a Chymorth i Blant yn golygu bod plant a theuluoedd yn cael gwasanaethau mwy di-dor.

- 1.8. Gwelsom dystiolaeth ddigonol o blant yn cael eu gweld fel rhan o'r asesiad. Roedd yr asesiadau yn ystyried anabledd y plentyn/person ifanc yn ddigonol, yn ogystal â'r ffactorau cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n effeithio ar ddatblygiad plentyn.
- 1.9. Gwelsom rai enghreifftiau da lle cofnodwyd canlyniadau, cryfderau a rhwystrau'n glir. Fodd bynnag, roedd gormod o amrywiaeth o ran ansawdd yr asesiadau a welsom. Ni chawsom sicrwydd bod plant anabl a'u rhieni yn cael cyfleoedd yn gyson i esbonio'r hyn a oedd yn bwysig iddynt, er mwyn eu helpu i sicrhau eu canlyniadau personol. Nid oedd llawer o'r asesiadau a welsom yn ystyried pa mor effeithiol oedd y gwasanaethau cymorth a ddarparwyd yn y gorffennol nac yn rhoi dadansoddiad clir o risgiau. Roedd yr asesiadau a welsom yn canolbwyntio'n rhy aml ar gasglu gwybodaeth a nodi'r gwasanaethau a oedd ar gael.
- 1.10. Roedd y rheolwyr a'r ymarferwyr yn gallu disgrifio'r gwerth roeddent yn ei roi ar feithrin cydberthnasau proffesiynol, cydgynhyrchu a chefnogi teuluoedd i nodi a datblygu eu cryfderau eu hunain. Roedd yn siomedig nad oedd tystiolaeth i ddangos faint o waith da roedd yr ymarferwyr wedi'i wneud gyda phlant anabl a'u teuluoedd fel rhan o'r asesiad yn y cofnodion bob amser, ond yn hytrach, daeth hyn i'r golwg drwy ein cyfweiliadau ag ymarferwyr.
- 1.11. Roedd rhai o'r cynlluniau gofal a chymorth a welsom yn effeithiol i blant, ac yn cynnwys tystiolaeth dda o bartneriaid yn cydweithio er mwyn darparu amrywiaeth o wasanaethau i ddiwallu anghenion plant. Fodd bynnag, nid oedd y rhan fwyaf ohonynt yn canolbwyntio ar ganlyniadau yn ddigonol. Nid oedd y rhan fwyaf o'r cynlluniau'n nodi gwasanaethau amgen pe na bai'r adnodd i ddiwallu'r angen cymwys ar gael.
- 1.12. Gwelsom fod y cynlluniau gofal a chymorth yn cael eu hadolygu'n amserol. Gwelsom arfer lle y caiff anghenion dysgu ychwanegol plant anabl eu hadolygu ar y cyd â'u cynlluniau gofal a chymorth, gan leihau'r angen i ddyblygu gwaith i deuluoedd. Nid oedd llawer o'r cynlluniau gofal a chymorth yn cael eu diweddarau'n glir yn sgil yr adolygiadau, ac nid oeddent yn cynnwys tystiolaeth o ba mor effeithiol oedd y cynlluniau gofal a chymorth o ran cefnogi'r plant anabl a'u teuluoedd i gyflawni'r canlyniadau a nodwyd iddynt.
- 1.13. Mae angen gwneud gwelliannau mewn perthynas ag arferion cofnodi. Gwelsom rai achosion lle na chofnodwyd ymweliadau â'r cartref na thrafodaethau â phlant anabl a'u teuluoedd. Mae angen i ymarferwyr sicrhau bod yr holl gofnodion yn amserol, yn gynhwysfawr ac o ansawdd dda.

- 1.14. Er bod y rhan fwyaf o'r asesiadau a chynlluniau gofal a chymorth a welsom wedi eu llofnodi'n briodol, nid oedd y trefniadau sicrhau ansawdd presennol a oedd ar waith yn ddigon cadarn i sicrhau bod y gwaith o ansawdd cyson, nac i hybu'r gwelliannau roedd angen eu gwneud. Mae angen i'r rheolwyr gael eu cefnogi i fod yn fwy hyderus i ddarparu tystiolaeth sy'n dangos i ba raddau y maent wedi herio a rhoi cyfeiriad yn effeithiol.
- 1.15. Wrth adolygu achosion, gwelsom rywfaint o dystiolaeth o ymarferwyr yn nodi'r effaith ar frodyr a chwiorydd plant anabl. Fodd bynnag, dywedodd y rhan fwyaf o'r rhieni a ymatebodd i'n harolwg y byddai eu plant eraill yn cael budd o gael mwy o sylw yn yr asesiad. Mae angen i'r awdurdod lleol fodloni ei hun bod brodyr a chwiorydd plant anabl yn cael digon o sylw.
- 1.16. Roedd arferion mewn perthynas â chynnig asesiadau gofalwyr i rieni a'u cynnal yn anghyson, a chafodd rhai cyfleoedd i gefnogi rhieni eu colli neu eu hoedi. Nid oedd yn glir o'r cofnod achos bob amser fod rhieni/gofalwyr yn cael cynnig asesiadau gofalwyr, nac yn cael gwybodaeth amdanynt. Yn yr un modd, yn ôl pob golwg, nid oedd yr ymarferwyr yn deall yn gyson pryd y dylid cynnal asesiadau gofalwyr. Mae'r awdurdod lleol wedi nodi hyn eisoes fel maes gwaith y mae angen gwneud gwelliannau yn ei gylch.
- 1.17. Roedd yn siomedig nad oedd yr awdurdod lleol wedi newid ei dempledi cofnodi ar adeg yr arolygiad i adlewyrchu ac atgyfnerthu egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Disgwylir y bydd yr awdurdod lleol yn newid i system electronig, sef System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru yn nes ymlaen yn 2020, ac mae angen defnyddio'r cyfle hwn i sicrhau bod cofnodion yn nodi disgwyliadau'r ddeddf. Roedd yn gadarnhaol bod yr awdurdod lleol wedi penderfynu gwneud y gwaith hwn yn gynt, sef ym mis Ionawr 2020.
- 1.18. Mae'r awdurdod lleol yn perfformio'n dda iawn mewn perthynas â nifer y diwrnodau a gymerir i gael grant cyfleusterau i'r anabl. Dywedwyd wrthym ei bod yn cymryd 126 diwrnod ar gyfartaledd yn 2018/19, o'i gymharu â 207 diwrnod ar gyfartaledd yng Nghymru. Gwelsom fod plant anabl a'u teuluoedd yn cael ymateb amserol i geisiadau am gyfarpar ac addasiadau. Roedd tystiolaeth dda o ymarferwyr yn gweithio gyda phartneriaid er mwyn darparu addasiadau priodol i hybu annibyniaeth a diogelwch plant anabl yn y cartref a'r tu allan iddo.
- 1.19. Rydym yn hyderus bod yr awdurdod lleol yn agored i'r cysyniad o daliadau uniongyrchol i helpu teuluoedd i gael mwy o ddewis a rheolaeth drwy hybu'r defnydd o daliadau o'r fath. Fodd bynnag, er ei bod yn gadarnhaol bod pobl yn cael defnyddio taliadau uniongyrchol, nid yw'r manteision cymaint ag y gallent fod oherwydd anawsterau o ran recriwtio a chadw cynorthwywyr personol.

- 1.20. Ceisiodd yr awdurdod lleol ddatblygu amrywiaeth o wasanaethau. Fodd bynnag, gwelsom blant anabl a gofalwyr sy'n rhieni ag anghenion cymwys a nodwyd am ofal a chymorth yn aros am gyfnodau hir cyn i'r gwasanaeth ddechrau. Mae hyn yn rhoi pwysau sylweddol ar deuluoedd, a bydd angen i'r rheolwyr sicrhau bod yr ymarferwyr yn cefnogi teuluoedd ac yn trafod y posibiladau â nhw yn rheolaidd.
- 1.21. Mae yna bwyslais ar sicrhau dealltwriaeth gyffredin o ddiogelu a'r angen i gadw plant yn ddiogel. Yn ystod cyflwyniad gan y pennaeth gwasanaethau, cawsom gyfle i weld fideo yn canolbwyntio ar addysgu plant i fod yn ddiogel. Roedd hwn yn un o blith nifer o fideos a ddatblygwyd gan bartneriaid yng Nghonwy sy'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau plant anabl.
- 1.22. Roedd y nifer bach o drafodaethau strategaeth, ymholiadau adran 47 ac adroddiadau a welwyd gan yr arolygwyr i'w gweld yn briodol. Roedd yr ymarferwyr yn gweld y plant, yn arsylwi arnynt ac yn cynnal cyfarfodydd un i un â nhw yn rheolaidd fel rhan o'r ymholiad.
- 1.23. Roedd y Gwasanaeth Anabledd 0-25 yn ymateb yn amserol gan amlaf yn achosion y plant hynny yr oedd eu hanghenion yn fwy, neu yr oedd angen cymryd camau ar sail y risgiau iddynt. Lle y nodwyd bod plant a phobl ifanc yn wynebu risg uniongyrchol o niwed, byddai gwasanaethau plant yn trefnu trafodaeth am strategaeth neu gyfarfod â'r heddlu. Fodd bynnag, nododd yr arolygwyr rai achosion lle na ddefnyddiwyd arferion digon cadarn, a gallai plant fod wedi bod yn agored i niwed o ganlyniad i hynny.
- 1.24. Cawsom anhawster i werthuso ansawdd rhai penderfyniadau allweddol ynghylch diogelu am na chafodd y risgiau eu dadansoddi'n glir, ac na chofnodwyd y rhesymeg wrth wraidd penderfyniadau i osod trothwyon yn dda. Nid oedd trafodaethau am strategaethau cyflawni canlyniadau yn cael eu cynnal yn rheolaidd fel modd i adolygu cynnydd, pennu camau nesaf neu roi gwybodaeth i bob asiantaeth.
- 1.25. Yn achos nifer bach o blant, gwelsom na chafodd pryderon ynghylch diogelu eu cydnabod yn ddigonol bob amser gan fod y ffocws ar anabledd y plentyn, ac felly nad oedd y cynllun gofal a chymorth dilynol yn sicrhau yr eir i'r afael â risgiau i'r plentyn a'i anghenion. Gwelsom rai achosion lle y byddai'r plant wedi cael budd o'r dulliau diogelu a'r heriau a ddarperir gan gynllun gofal, cymorth a diogelu amlasiantaethol. Mae angen i'r awdurdod lleol fodloni ei hun y caiff gweithdrefnau diogelu plant eu deall gan y staff fel ffordd o gefnogi teuluoedd i gadw plant yn ddiogel, a sicrhau bod trothwyon diogelu yn cael eu gweithredu'n briodol.
- 1.26. Dywedodd y staff fod y cydberthnasau gwaith rhwng y gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu yn gadarnhaol, ac ar adeg yr arolygiad roedd trafodaethau am ddatblygu'r hyn sy'n gyfystyr â chanolfan ddiogelu amlasiantaethol yn mynd rhagddynt. Byddai datblygiad o'r fath yn cynnig

cyfle amserol i adolygu disgwyliadau o ran diogelu, gan gynnwys dysgu o ymarfer.

- 1.27. Ar nodyn cadarnhaol, dywedodd yr uwch-reolwyr wrthym fod y fforymau diogelu plant wedi cael eu hailsefydlu'n ddiweddar er mwyn helpu a chefnogi ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant anabl a'u teuluoedd i fyfrio a dysgu o ymarfer, gan gynnwys o adolygiadau ymarfer plant cenedlaethol, ac fel cyfle i dynnu sylw at feysydd i'w gwella.
- 1.28. O'r achosion a welsom, gwnaethom nodi bod cymwysterau a phrofiad addas gan yr ymarferwyr a oedd yn cynnal ymchwiliadau i achosion amddiffyn plant gan amlaf. Nid oedd profiad addas gan yr ymarferwyr a oedd yn delio ag achosion amddiffyn plant bob tro, ond cawsom wybod bod goruchwyliaeth ychwanegol yn cael ei darparu gan y rheolwyr. Gwelsom enghreifftiau o ymarferwyr o'r tîm anabledd yn cydweithio ar rai o'r achosion diogelu, a dywedodd yr ymarferwyr wrthym eu bod yn gweld hyn fel ffordd werthfawr o gael cyngor a chymorth, yn arbennig mewn perthynas â datblygu eu hymarfer o ran plant sy'n wynebu risg.

Tystiolaeth ar lefel strategol:

- 1.29. Mae'r awdurdod lleol yn gweithio'n galed i drawsnewid darpariaeth ei wasanaethau ar adeg pan oedd yn rhaid iddo (fel awdurdodau lleol eraill) hefyd sicrhau arbedion ariannol. Roedd uchelgais cynlluniau'r awdurdod yn dangos ei ymrwymiad i wella gwasanaethau ymyrraeth gynnar statudol a'r cyfnod pontio rhwng bod yn blentyn a bod yn oedolyn i blant, a phobl ifanc a'u teuluoedd.
- 1.30. Mae gan yr awdurdod lleol weledigaeth ac uchelgais clir ar gyfer plant anabl. Mae'r weledigaeth mewn perthynas ag anabledd yn gweithio drwy fodel sy'n seiliedig ar oedran, a chaiff plant eu hystyried yn blant yn anad dim. Caiff y weledigaeth ei rhannu ar lefel gorfforaethol, mae aelodau etholedig yn ei deall yn llwyr ac mae wedi llywio'r strwythur gweithredol.
- 1.31. Nododd yr arolygwyr fod cyfeiriad yr awdurdod a'i gwasanaethau gofal cymdeithasol wedi ennyn cryn dipyn o gefnogaeth wleidyddol. Roedd yr aelodau etholedig yn cael y wybodaeth ddiweddaraf drwy ddulliau rheoli perfformiad ac adrodd a oedd yn cynnwys cyfleoedd i herio. Clywsom fod yr uwch-reolwyr yn parhau i roi gwybod i'r aelodau am y cymhlethdodau a'r risgiau sylfaenol sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth.

2. Pobl – llais a dewis

Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau:

- **Dull sy'n seiliedig ar hawliau sy'n sicrhau bod gan blant anabl a'u teuluoedd lais, dewis gwybodus a rheolaeth dros eu bywydau**
- **Bod arweinwyr yn effeithiol o ran sicrhau bod ganddynt ddigon o weithwyr hyderus a medrus i hyrwyddo llesiant plant anabl**

Tystiolaeth ar lefel yr unigolyn:

- 2.1. Roedd y rhan fwyaf o'r rhieni o'r farn bod yr ymarferwyr wedi dod i adnabod y plentyn anabl yn dda. Roeddent yn gwerthfawrogi'r cysondeb sydd ynghlwm wrth gael yr un ymarferwyr, a oedd yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol llawn ymddiriedaeth, yn gwrando arnynt ac yn eu cefnogi. Dywedodd un o'r rhieni, "I felt supported to help our disabled child become as independent as can be".
- 2.2. Roedd yr ymarferwyr o'r farn bod y rheolwyr yn gwrando arnynt ac yn eu cefnogi, "I love my job and proud to be working for Conwy".

Tystiolaeth ar lefel weithredol:

- 2.3. Yn ystod ein trafodaethau â'r ymarferwyr, gwelsom dystiolaeth o'r ymdrechion parhaus a wnaed ganddynt i gael gwybod dymuniadau a theimladau'r plentyn/person ifanc. Fodd bynnag, yn unol â'n canfyddiadau mewn perthynas â'r sgwrs 'beth sy'n bwysig', ni chafodd hyn ei nodi'n gyson yn y dogfennau a welsom.
- 2.4. Mae'r rhan fwyaf o'r ymarferwyr yn y gwasanaeth anabledd wedi cwblhau hyfforddiant ar gynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion. Gwelsom y ffordd yr oedd yr hyfforddiant yn darparu amrywiaeth o adnoddau, ac yn cefnogi ymarferwyr i ddatblygu sgiliau i'w galluogi i gyfathrebu'n effeithiol â phlant. Mae nifer o'r ymarferwyr wedi cael hyfforddiant ar Makaton a'r System Cyfathrebu Cyfnewid Lluniau (PECS), a gwelsom ymarferydd yn defnyddio technoleg yn effeithiol i gyfathrebu a meithrin cydberthynas â phlentyn anabl mewn ysgol breswyl.
- 2.5. Dywedodd yr awdurdod lleol wrthym fod pobl yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith. Roedd y rheolwyr yn hyderus bod digon o ymarferwyr sy'n siarad Cymraeg yn y gwasanaethau i blant anabl i roi'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg ar waith. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig rhagweithiol ar gael yn gyson i blant ym mhob rhan o'r sefydliad. Fel enghreifftiau, nodwyd diffyg staff sy'n gallu cyfathrebu yn Gymraeg ym mysg cynorthwywyr personol mewn ysgolion a gweithwyr y Gwasanaeth Anableddau Dysgu i Blant ac Oedolion.
- 2.6. Roedd yr ymarferwyr yn ymwybodol o'r gwasanaethau eirioli, a gwelsom rywfaint o dystiolaeth o'r eiriolaeth a ddarperir yn ystod diogelu ac i gefnogi oedolion ifanc yn ystod y cyfnod pontio.
- 2.7. Eir i'r afael â chwynion o fewn terfynau amser a ragnodir. Dywedwyd wrthym nad yw'r Gwasanaeth Anabledd i bobl o dan 25 oed yn cael llawer o gwynion. Ni chawsom sicrwydd o'n trafodaethau â'r ymarferwyr bod y bobl yn cael gwybodaeth am eu hawl i gwyno yn gyson, fel sy'n ofynnol o dan Ganllawiau ar gyfer ymdrin â chwynion a sylwadau gan wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.
- 2.8. Dywedodd yr uwch-reolwyr a'r ymarferwyr mai sefydliad sy'n dysgu yw'r awdurdod, a bod dysgu o gwynion yn cyfrannu at hyn. Clywsom fod

canfyddiadau o gwynion a chanmoliaeth yn cael eu hymgorffori'n dda yn yr awdurdod lleol. Roedd yna dystiolaeth o uwch-reolwyr yn defnyddio'r wybodaeth i ysgogi gwelliannau o ran darparu gwasanaethau.

- 2.9. Dywedodd yr ymarferwyr fod eu rheolwyr yn hawdd mynd atynt ac yn gefnogol, gan sôn am gefnogaeth gadarnhaol gan gymheiriaid a chyfleoedd a sesiynau goruchwylio anffurfiol a oedd ar gael i gefnogi eu hymarfer. Gwelsom fod sesiynau goruchwylio ffurfiol yn cael eu cynnal, ond nid oeddent yn effeithiol yn gyson o ran cefnogi'r staff i fyfyrion ar eu hymarfer. Mae angen i'r awdurdod lleol wella ei brosesau o ran arferion goruchwylio, a bodloni ei hun y caiff y polisi goruchwylio ei weithredu yn gyson, yn ogystal â gwneud trefniadau i archwilio ansawdd y gwaith goruchwylio.
- 2.10. Dywedodd yr ymarferwyr wrthym fod gwybodaeth am raglenni hyfforddi yn cael ei rhannu'n rheolaidd, ac roeddent yn gadarnhaol am argaeledd ac ansawdd yr hyfforddiant.
- 2.11. Roedd fframwaith sicrhau ansawdd newydd wrthi'n cael ei dreialu ar adeg yr arolygiad. Gwnaethom edrych ar yr archwiliadau a gwblhawyd gan y rheolwyr o rai o'r achosion a adolygwyd gennym, a down i'r casgliad bod angen i'r awdurdod lleol ddatblygu fformat archwilio achosion sy'n sicrhau ffocws ar ansawdd arferion, a all gael ei gwblhau'n gyson gan yr holl reolwyr mewn modd sy'n llywio dysgu'n uniongyrchol.
- 2.12. Mae'r awdurdod lleol yn cadw cofrestr o blant ac oedolion ifanc sydd â nam ar y synhwyrau, ac mae'n ymwybodol o'r angen i ailsefydlu a hybu cofrestr plant anabl.

Tystiolaeth ar lefel strategol:

- 2.13. Mae'r awdurdod lleol yn cael budd o dîm o uwch-arweinwyr profiadol a sefydledig y mae gan y gweithle hyder ynddynt. Roeddent yn cydweithio'n dda, ond nodwyd ganddynt fod adnoddau o dan bwysau ar adegau.
- 2.14. Mae gan y tîm uwch-arweinwyr ddealltwriaeth dda o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu ar draws y gwasanaeth. Clywsom fod y cysylltiadau adrodd cadarn rhwng y prif weithredwr, cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol, y bwrdd rheoli corfforaethol a'r aelodau etholedig yn darparu cyfleoedd da i rannu a goruchwylio blaenoriaethau'r awdurdod lleol.
- 2.15. Mae prosesau rheoli perfformiad wedi'u hymgorffori'n dda yn y gwasanaeth. Clywsom fod uwch-swyddogion a rheolwyr yn trafod perfformiad yn rheolaidd yn eu cyfarfodydd misol.
- 2.16. Clywsom fod yr awdurdod lleol yn gweithio i sicrhau y caiff barn plant anabl a'u rheini ei defnyddio ei helpu i lywio gwasanaethau. Gofynnir am eu barn yn ystod y broses o gynllunio ac ad-drefnu gwasanaethau.

- 2.17. Mae'r awdurdod lleol wedi gweithio gyda Fforwm Conwy ar gyfer pobl fyddar a'r Tîm Gwella a Datblygu corfforaethol i ddatblygu dull cyngor cyfan o ddiwallu anghenion cyfathrebu dinasyddion sydd â nam ar y synhwyrau. Gwelsom gynllun gweithredu corfforaethol sy'n canolbwyntio ar sicrhau y caiff pobl â nam ar y synhwyrau gyfleoedd cyfartal i fanteisio ar wasanaethau'r cyngor.

3. Partneriaethau ac Integreiddio

Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau:

**Bod gan yr awdurdod lleol bartneriaethau effeithiol a threfniadau integredig sy'n comisiynu ac yn darparu gwasanaethau cynaliadwy o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion plant anabl a'u teuluoedd
Bod cynlluniau ar gyfer pobl ifanc anabl sy'n gadael gofal yn seiliedig ar eu cryfderau, yn cynnwys y person ifanc yn llawn ac yn cynyddu eu potensial i fod yn annibynnol**

Tystiolaeth ar lefel yr unigolyn:

- 3.3. Mae'r ymarferwyr yn cyfathrebu ac yn cydweithio'n dda â'i gilydd er mwyn sicrhau nad oes angen i blant anabl na'u teuluoedd ailadrodd eu hanesion.
- 3.4. Mae cydberthnasau gweithredol proffesiynol yn cynnig manteision a chanlyniadau cadarnhaol i blant anabl a'u teuluoedd.
- 3.5. Ni all plant anabl na'u teuluoedd fod yn hyderus y byddant yn cael gwasanaethau gofal a chymorth amserol yn gyson, fel y nodwyd yn eu cynlluniau gofal a chymorth. Dywedodd un o'r rhieni wrthym, "I can't fault the social worker, she tried every way, just not enough resources for families supporting children with complex needs".

Tystiolaeth ar lefel weithredol:

- 3.6. Roedd yr ymarferwyr a'r partneriaid y gwnaethom gyfweld â nhw yn ystyried y ffaith bod gwahanol wasanaethau a phroffesiynau yn gweithio yn yr un lleoliad yn gadarnhaol iawn. Gwelsom dystiolaeth bod plant anabl a'u rhieni'n cael budd o drefniadau cydweithio effeithiol rhwng gwahanol dimau ac asiantaethau.
- 3.7. Gwelsom reolwyr gweithredol o wahanol sefydliadau yn gweithio'n dda i ddatblygu a darparu amrywiaeth dda o wasanaethau cymorth i ddiwallu anghenion plant. Un enghraifft o hyn oedd y defnydd arloesol a wnaed o'r Gronfa Gofal Integredig.
- 3.8. Mae'r ffaith bod addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol yn yr un gyfarwyddiaeth yng Nghonwy wedi helpu i hwyluso'r broses o ddarparu gofal cysylltiedig gwell a chefnogi'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau. Un enghraifft o hyn oedd y gwaith o ddatblygu canolfan

seibiant breswyl ar y cyd ar dir yr ysgol. Clywsom fod y plant yn cael cynnig treulio amser yn y ganolfan breswyl fel rhan o raglen dreigl yr ysgol, er mwyn eu helpu i ddatblygu eu sgiliau byw'n annibynnol a'u hyder.

- 3.9. Mae pobl ifanc anabl yng Nghonwy yn gallu manteisio ar addysg a chyfleoedd cyflogaeth gan gynnwys profiad gwaith. Mae'r awdurdod lleol yn cefnogi pobl ifanc i fanteisio ar addysg bellach, ac mae wedi meithrin cysylltiadau cryf â Choleg Menai.
- 3.10. Mae trefniadau caffael yr awdurdod yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu rhai gwasanaethau o ansawdd da i ddiwallu anghenion plant anabl a'u teuluoedd. Drwy'r trefniadau monitro, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r gwasanaethau a ddarperir, wedi'i llywio gan farn y sawl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.
- 3.11. Mae cael digon o adnoddau yn parhau'n heriol, a gwelsom oedi o ran darparu cymorth gan gynnwys rhestr aros ar gyfer grwpiau sesiynol a gofal preswyl yn Llys Gogarth. Clywsom fod gostyngiad yn nifer y gofaluwr maeth arbenigol wedi effeithio ar y gallu i gael lle gofal seibiant yn Llys Gogarth. Roedd yr awdurdod lleol wedi nodi'r angen i ddatblygu'r farchnad gofal cartref, ac annog darparwyr i weithio gyda phlant anabl. Dywedodd y rheolwyr caffael wrthym eu bod yn cyfarfod yn rheolaidd ag asiantaethau maeth annibynnol, darparwyr gofal cartref a'r trydydd sector, a'u bod yn gweithio'n rhagweithiol gyda'r nod o feithrin cydberthnasau ac ymddiriedaeth yn y gobaidh o ehangu'r cylch gorchwyl a, thrwy hynny, y farchnad. Mae'r uwch-reolwyr hefyd wrthi'n ystyried a oes angen iddynt wella eu darpariaeth fewnol.
- 3.12. Nid yw'r rheolwyr na'r uwch-reolwyr yn cael gwybodaeth ar hyn o bryd am ddiffygion o ran darparu gwasanaethau yn dilyn cymeradwyaeth y panel. Mae angen i'r awdurdod lleol ddatblygu system a allai helpu i lywio bwriadau caffael yn y dyfodol.
- 3.13. Gwnaeth y rhieni nodi diffyg darpariaeth dro ar ôl tro. Mae angen i'r awdurdod lleol barhau i weithio gyda'i bartneriaid i sicrhau y rhoddir cymorth amserol i deuluoedd plant anabl sydd ag anghenion cymhleth iawn.
- 3.14. Mae'r strwythurau yng Nghonwy yn cefnogi cyfnodau pontio, a gwelsom fod y gwasanaeth 0-25 yn hybu cyfleoedd i weithwyr cymdeithasol feithrin cydberthnasau cadarnhaol â phlant anabl a'u teuluoedd yn y cyfnod pontio i fyd oedolion. Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda, ac maent yn uchelgeisiol drostynt.
- 3.15. Gwelsom dystiolaeth bod ymadawyr gofal anabl yn cael eu cefnogi gan gynghorydd i bobl ifanc sy'n gweithio fel rhan o'r tîm oedolion sy'n agored i niwed. Gan fod y gwasanaeth anabledd yng Nghonwy yn para am oes, mae pobl ifanc yn cael eu cefnogi'n barhaus gan ymarferydd yr awdurdod lleol drwy'r cyfnod pontio i fyd oedolion ifanc, nes iddynt gyrraedd 25 oed.

- 3.16. Mae'r tîm nyrsio cymunedol i oedolion ag anableddau dysgu yn neilltuo nyrs pan fydd y person ifanc yn cyrraedd 17 oed lle y bo angen, sy'n eu cefnogi wrth iddynt bontio i wasanaeth iechyd i oedolion. Roedd y rheolwyr iechyd y gwnaethom siarad â nhw o'r farn bod y cyfnod pontio ym maes iechyd yn cael ei reoli'n well i bobl ifanc ag anabledd dysgu nag i blant eraill.
- 3.17. Mae'r rheolwyr tai a'r gwasanaeth anabledd yn cydweithio i ystyried amrywiaeth o ddewisiadau llety ar gyfer oedolion ifanc anabl. Ar hyn o bryd, maent yn awyddus i sicrhau bod mwy o lety ar gael i bobl ifanc anabl a darparu cyfleoedd iddynt weithio drwy ddefnyddio a throsglwyddo gwasanaeth sydd wrthi'n rhedeg drwy brosiect arall.

Tystiolaeth ar lefel strategol:

- 3.18. Gwnaeth uwch-reolwyr yr awdurdod lleol dynnu sylw at y gydberthynas waith agos rhwng timau rheoli corfforaethol, a chlywsom fod anghenion plant anabl yn cael eu hyrwyddo ym mhob agwedd ar waith cynllunio a gwasanaethau'r cyngor.
- 3.19. Roedd tystiolaeth o'r sectorau gofal cymdeithasol ac addysg yn gweithio mewn partneriaeth i wella gwasanaethau i blant anabl. Clywsom am y rhaglen drawsnewid sy'n canolbwyntio ar weithio mewn partneriaeth rhwng y gwasanaeth anabledd a'r gwasanaeth anghenion dysgu. Clywsom hefyd eu bod yn cydweithio i ddatblygu strategaeth gofal a chynllun gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- 3.20. Mae Strategaeth Comisiynu Gofal Cymdeithasol yr awdurdod lleol yn adlewyrchu anghenion plant anabl. Fodd bynnag, nid yw trefniadau comisiynu ar y cyd yn ddigon datblygedig, ac mae angen i'r awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd ddatblygu dull comisiynu ar y cyd i blant ag anghenion cymhleth drwy'r bwrdd partneriaeth rhanbarthol.
- 3.21. Mae'r uwch-reolwyr yn ymrwymedig i weithio mewn partneriaeth ac i weithio'n rhanbarthol. Mae cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol yn cadeirio'r bwrdd diogelu rhanbarthol, ac mae pennaeth y gwasanaeth yn cadeirio'r bartneriaeth anabledd dysgu ranbarthol. Roedd cyfraniad gweithredol a chyson staff y gwasanaethau yng Nghonwy i'r agenda ranbarthol yn cael ei gydnabod a'i werthfawrogi gan ei bartneriaid.

4. Atal ac ymyrraeth gynnar

Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau:

Dull strategol a gynlluniwyd i ddarparu help cynnar a gwasanaethau atal amserol a chymesur

Caiff plant anabl gymorth mewn cymunedau gwydn i gyflawni eu llawn botensial; i fyw, dysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas

Tystiolaeth ar lefel yr unigolyn:

- 4.1. Mae amrywiaeth o wasanaethau help cynnar ar gael i blant anabl, pobl ifanc a'u teuluoedd. Roedd y trefniadau i sicrhau bod pobl yn gallu manteisio ar help cynnar yn parchu eu hawliau a'u hunaniaeth, ac mae'r awdurdod yn ymrwymedig i ddatblygu gwasanaethau cynhwysol.
- 4.2. Mae'r pwyslais ar sicrhau y gall mwy o blant anabl a'u teuluoedd gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n digwydd yn eu cymunedau lleol.
- 4.3. Mae'r awdurdod lleol yn canolbwyntio ar hybu camau i ddatblygu sgiliau bywyd i alluogi pob plentyn anabl i gyrraedd ei lawn botensial. Roedd y rhieni'n gadarnhaol ar y cyfan am effaith y grwpiau, a dywedodd un o'r rhieni wrthym fod un o'r grwpiau wedi rhoi cyfle i'w phlentyn anabl ddysgu sgiliau cyfathrebu newydd ac ymddygiadau cadarnhaol.

Tystiolaeth ar lefel weithredol:

- 4.4. Mae'r awdurdod lleol wedi gweithio'n galed i ail-lunio ac ail-gynllunio ei wasanaethau, ac roedd yn canolbwyntio ei ddarpariaeth o wasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal ar ddatblygu'r pum canolfan i deuluoedd yn y gymuned. Y bwriad yw sicrhau bod gwasanaethau cyffredinol ar gael i blant anabl yn eu cymunedau lleol.
- 4.5. Mae'r awdurdod lleol yn mynd ati i sicrhau bod amrywiaeth addas o wasanaethau gofal plant a chwarae ar gael i blant anabl. Gwelsom enghreifftiau, a chlywsom am enghreifftiau, o blant yn cael cymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae a hamdden ar ôl yr ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol, a'r awdurdod lleol yn darparu cymorth un i un i alluogi plant i fanteisio ar wasanaethau hamdden prif ffrwd yn ystod gwyliau'r ysgol. Roedd y cymorth yn sicrhau y gallai'r plant ddefnyddio'r canolfannau hamdden gyda'u cyfoedion yn ddiogel.
- 4.6. Clywsom dystiolaeth, a gwelsom dystiolaeth, o blant a phobl ifanc anabl yn cael eu cefnogi a'u hannog i ddysgu a datblygu i gyflawni eu llawn botensial a chymryd rhan mewn cymdeithas. Un enghraifft o hyn oedd y clwb pontio i bobl ifanc rhwng 16 a 19 oed, a sefydlwyd i baratoi pobl ifanc ar gyfer byd oedolion.
- 4.7. Mae'r awdurdod lleol yn gwneud y defnydd mwyaf posibl o dechnoleg gynorthwyol er mwyn helpu i hybu annibyniaeth pobl ifanc a chefnogi teuluoedd.
- 4.8. Lle y bo'n briodol, mae'n bosibl i deuluoedd gael eu rhoi 'cam i lawr' er mwyn cael cymorth pellach gan y canolfannau i deuluoedd. Ar adeg yr arolygiad, roedd diffyg dealltwriaeth o'r angen i rannu gwybodaeth â'r gwasanaeth anabled os a phryd nad oedd teuluoedd yn ymgysylltu. Ar nodyn cadarnhaol, gwnaeth yr awdurdod lleol fyfyrion ar yr arfer hwn a rhoi gwybod i'r canolfannau i deuluoedd am yr angen i hysbysu gwasanaethau plant ar bob achlysur os nad yw teulu'n mynd i'r ganolfan ar ôl cael ei

atgyfeirio. Caiff hyn ei ffurfioli mewn ymarfer, a bydd yn cryfhau arferion diogelu.

- 4.9. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom ymrwymiad yr awdurdod lleol i wella cynhwysiant yn y gymuned ehangach er mwyn sicrhau y gall pobl ifanc a'u teuluoedd gael gafael ar yr adnoddau sydd ar gael. Clywsom fod yr awdurdod lleol yn cyhoeddi Allan i Chwarae Conwy sy'n cynnig gwybodaeth am ba mor hygyrch yw'r gweithgareddau ar gyfer plant ac oedolion a all fod yn anabl. Gwnaethom gyfarfod â Chynghorydd Chwaraeon sy'n gweithio gyda'r Gwasanaeth Datblygu Cymunedol, a chlywsom ei fod yn gweithio i ddatblygu cyfleoedd hamdden mewn clybiau prif ffrwd ar gyfer pobl ag anabledd yng Nghonwy. Gwelsom y llyfryn ar chwaraeon anabledd, sy'n canolbwyntio ar chwaraeon cynhwysol, a chanllaw i glybiau ar sut i fod yn gynhwysol.

Tystiolaeth ar lefel strategol:

- 4.10. Mae dealltwriaeth glir o'r model cymdeithasol o anabledd, a cheir ffocws ar sicrhau bod plant anabl yn cael mynediad cyfartal.
- 4.11. Roedd yr uwch-reolwyr yn ymwybodol iawn bod y gallu i fanteisio ar gymorth cynnar yn allweddol o ran lliniaru'r angen am wasanaethau statudol a datblygu a hybu cryfderau a gwydnwch y bobl eu hunain.
- 4.12. Mae dealltwriaeth o'r angen i wneud pethau'n wahanol, a gwelsom fod y tîm uwch-reolwyr yn ymroddedig i wella gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar.
- 4.13. Gwelsom ffocws ar y dyfodol, ac ar ffyrdd y gallwn gefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn well. Er eu bod yn ymwybodol o'r gwaith sydd ynghlwm wrth ddatblygu agenda ataliol, bydd angen i uwch-reolwyr sicrhau nad ydynt yn colli golwg ar eu gallu i barhau i ddiwallu anghenion plant anabl sydd ag anghenion cymhleth.
- 4.14. Dylai'r awdurdod lleol barhau i ddatblygu ei systemau gwybodaeth sy'n cynnwys gwaith craffu ar y galw am wasanaethau, ac sy'n ategu dadansoddiad o'r gwahaniaeth y gall ymyrraeth gynnar, gofal a chymorth ac amddiffyn yn ei wneud i blant anabl a'u teuluoedd.

Dull

Dewiswyd ffeiliau achos i'w holrhain a'u hadolygu o sampl o achosion. Adolygwyd cyfanswm o 45 o ffeiliau achos, a gwnaed gwaith dilynol ar 15 o'r rhain gyda chyfweiliadau â gweithwyr cymdeithasol a phlant a/neu eu teuluoedd. Dosbarthwyd arolwg i gasglu barn y rhieni. Cafwyd 9 o ymatebion i'r arolwg hwn.

Cyfwelwyd ag amrywiaeth o ymarferwyr gofal cymdeithasol a'u rheolwyr, aelodau etholedig ac uwch-swyddogion. Dosbarthwyd arolwg i staff gofal cymdeithasol sy'n gweithio gyda phlant anabl. Cafwyd 16 o ymatebion i'r arolwg hwn.

Adolygwyd cofnodion o oruchwylio gan reolwyr llinell gan 9 o ymarferwyr a rheolwyr. Adolygwyd gwybodaeth am berfformiad ac amrywiaeth o ddogfennau perthnasol yr awdurdod lleol. Arsylwyd ar gyfarfod panel perthnasol ac adolygiad achos.

Cyfwelwyd ag amrywiaeth o staff gweithredol a strategol o'r bwrdd iechyd lleol a sefydliadau darparwyr perthnasol.

Y Gymraeg

Roedd dau arolygydd Cymraeg, ac roeddem yn gallu gwneud y cynnig rhagweithiol o gynnal rhannau o'r broses arolygu yn Gymraeg.

Cydnabyddiaethau

Hoffai AGC ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser ac a gyfrannodd at yr arolygiad hwn: plant, rhieni, staff, rheolwyr, aelodau, sefydliadau partner a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill, gan gynnwys cydweithwyr o Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.